# Cyfoeth Naturiol Cymru


Ein Cyf CAAS20413-W7C0
Eich Cyf: Sesiwn Gwrandawiad 11

Llwyn Brain,
Ffordd Penlan
Parc Menai,
Bangor
Gwynedd  LL57 4DE

Ebost:
angharad.crump@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Ffôn: 03000 655 232


Sharon Ellis,
Swyddog y Rhaglen,
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn
Swyddfa'r Cyngor,
Stryd y Jêl,
Caernarfon,
Gwynedd.
LL55 1SH

18/08/2016

Annwyl Miss Ellis,

**Cyflwyniad gan Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Cyf. Rhif 1086 – Stad Diwydiannol Griffin, Penrhyndeudraeth**
**Sesiwn Gwrandawiad 11**
**Dynodiadau a Safleoedd Amgen**
**Gwynedd – De**

Mae CNC yn dymuno darparu'r cyflwyniad ychwanegol i Sesiwn Gwrandawiad 11 o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn – Dynodiadau a Safleoedd Amgen
Gwynedd – Llŷn.

Mae'r cyflwyniad yma yn ymwneud â'r bwriad i ddynodi tir yn Stad Ddiwydiannol Griffin, Penrhyndeudraeth dan Bolisi CYF1 i ddefnydd cyflogaeth.

Yn ystod ein cyfarfod diweddar gyda'r Swyddogion Polisi Cynllunio rydym wedi amlygu ein pryder gyda dynodiad tir yn Stad Ddiwydiannol Griffin, Penrhyndeudraeth i ddefnydd cyflogaeth - ac yn benodol yr ardal o dir sydd wedi ei ganoli o amgylch SH6144 3934.

Yn hanesyddol cafodd mwyafrif lefelau safle'r stad eu cynyddu er mwyn lleihau y perygl llifogydd.  Ar y pryd, cadwyd rhan o'r dynodiad arfaethedig ar ei lefelau gwreiddiol i beidio â chynyddu'r risg llifogydd ym Mhenrhydeudraeth.  Felly, mae'r darn yma o dir yn bwysig fel ardal storio llifogydd ac mae yn aml yn wlyb pan fo lefel y dŵr yn y Cyt yn uchel.  Gall unrhyw ddatblygiad ar y tir yma achosi pryderon sylweddol i ni.

Yn absenoldeb unrhyw SFCA manwl rydym o'r farn fod unrhyw fwriad i gynyddu lefel y safle i'r ardal storio llifogydd yn cynyddu'r risg llifogydd yn yr ardal.  Mae gostyngiad yn yr ardal storio sydd ar gael i ddŵr llifogydd yn debygol o gynyddu'r risg llifogydd ar dir ac eiddo ym Mhenrhyndreudraeth – yn groes i amcanion Cyngor Nodyn Technegol 15 (TAN15) sy'n pennu na ddylai datblygiad gynyddu'r perygl llifogydd i eraill.

Bydd unrhyw ddatblygiad yn yr ardal storio llifogydd yn annhebygol iawn o gydymffurfio gyda gofynion TAN 15 heb yr angen i godi'r tir.  Yn benodol ,rydym o'r farn na fyddai'n bosib i'r datblygiad gydymffurfio gyda gofynion paragraff A1.14 sy'n gofyn fod datblygiadau newydd yn rhydd o lifogydd mewn digwyddiad 1 mewn 100 mlynedd (1% o debygolrwydd).

O ganlyniad i'r pryderon rydym yn ymwybodol fod yr Awdurdod Lleol yn bwriadu, yn amodol i gael ei dderbyn gan yr Arolygydd, i newid y dynodiad arfaethedig i beidio cynnwys yr ardal storio llifogydd o'r dyraniad defnydd cyflogaeth arfaethedig.  Deallwn y bydd y terfyn diwygiedig yn cael ei drin fel newid posib o ran materion yn codi ynghyd a'r newidiadau angenrheidiol a wneir i atodlen y safle a ddarparwyd dan Bolisi CYF1.

Gallwn gadarnhau yn amodol i dynnu'r ardal yma o dir, na fyddem yn gwrthwynebu'r dynodiad arfaethedig i ddefnydd cyflogaeth.

Hyderwn fod ein sylwadau o gymorth i chi.  Peidiwch â phetruso i gysylltu â ni os fedrwn fod o unrhyw gymorth pellach.  Gallwn ymhelaethu ar unrhyw un o'r materion uchod yn ystod gwrandawiad sesiwn 11 pe byddai hynny o gymorth i'r Arolygwr.

Yn gywir

**Angharad Wyn Crump**
**Uwch Swyddog Cadwraeth**
**Tîm Gwaith Achos**